

## Trugaredd

Heb. 4:14-16 Alaw: Deio Bach

Pan mae pethau'n drech na thithau

Cofia Iesu ar y groes;

Pan mae'r felan yn dy flino

Cofia iddo ddioddef loes.

Cariodd Ef ein holl fethiannau,

Teimlodd Ef y poen i gyd;

Archoffeiriad ydyw'r Iesu

Gyd-ddioddefa â'n gwendid ni.

Pan mae bywyd yn dy brofi

Dal dy afael yn dy ffydd.

Wedi ei demtio oedd yr Iesu

Ym mhob peth, 'run modd â ni.

Felly, gawn ni gyda hyder

Nesu at orsedd gras y Tad

Er mwyn derbyn ei drugaredd

A chael cymorth Duw yn rhad.

Cass Meurig Chwefror 2019